Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Harlech**

**Ysgol Tanycastell**
**Ffordd y Nant**
**Harlech**
**LL46 2UE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Cofnodwch y Dyddiad â Llaw**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gellir gofalu am uchafswm o 18 o blant yng Nghylch Meithrin Harlech a chynigir lleoedd ar gyfer plant rhwng dwy a phedair blwydd oed, gan gynnwys plant sy'n gymwys trwy Hawliau Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol. Yr oriau agor yw 11:30am–3:30pm o ddydd Llun i ddydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Ysgol Tanycastell, Harlech, Gwynedd. Y personau cofrestredig yw Annwen Williams a Rhian Corps; Rhian Corps yw'r person â gofal hefyd, sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn prysur anelu at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg Llywodraeth Cymru, gyda'r ddau aelod o staff yn siarad Cymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn datblygu'n arbennig o dda. Maent yn ddysgwyr brwd a chwilfrydig ac wrth eu bodd yn dewis yr hyn yr hoffent ei wneud o'r dewis helaeth o weithgareddau ysgogol. Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol ac maent yn darparu amrediad diddorol o weithgareddau y tu mewn a thu allan. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant amrediad eang o gyfleoedd dysgu mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn gadarn, sy'n arwain at lefel dda o ofal ar gyfer y plant gan dîm o staff ymroddgar. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gweithwyr proffesiynol. Mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi prynu tŷ bach twt i'r plant chwarae ag ef yn yr awyr agored, ac mae hyn yn welliant sylweddol ers iddynt gofrestru ym mis Hydref 2017.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni un gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â diweddaru'r datganiad o ddiben gydag oriau agor newydd y gwasanaeth. Ni wnaethom ystyried bod hyn yn effeithio ar ofal y plant, a thynnwyd sylw'r personau cofrestredig at hyn er mwyn mynd i'r afael ag ef.

Gwnaed tri argymhelliad i'w hystyried wrth wella arferion mewn perthynas â staff yn cofnodi datblygiad pob plentyn, cofnodi sgyrsiau â rhieni pan fydd plentyn yn cael anaf i'w ben a chwblhau dull archwilio Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hynod o dda a gwrandewir arnynt bob amser. Maent yn hapus iawn ac yn dangos sgiliau rhagorol wrth reoli rhyngweithio cadarnhaol a sut i ymddwyn yn gymdeithasol. Mae pob plentyn yn frwdfrydig ac yn mwynhau ei chwarae a'i brofiadau dysgu yn arw. Mae'r plant yn elwa ar amrediad sylweddol ac ysgogol o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a dilyn eu diddordebau.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant lais cryf a gwrandewir ar bopeth sydd ganddynt i'w ddweud.

Roedd yr holl blant yn mynegi eu hunain yn dda ac ymatebwyd i'w ceisiadau ar unwaith. Er enghraifft, pan ofynnodd un plentyn am hufen ar ei ffrwythau amser cinio, ymatebodd aelod o staff ar unwaith gan ddweud "dere inni fynd i nôl peth gyda'n gilydd", ac edrychodd y plentyn yn hapus iawn ac aeth yn ôl at y bwrdd dan wenu. Roedd yr holl blant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac, ar ôl bwyta eu cinio, gwnaethant ddychwelyd at yr ystafell chwarae yn llawn cyffro, wrth sgwrsio'n frwdfrydig am yr hyn roeddent yn mynd i chwarae ag ef yn ystod y prynhawn. Roedd yr holl blant yn cymryd rhan yn dda iawn yn eu gweithgaredd o ddewis, ac roedd pob un yn awyddus i chwarae â'i hoff beth.

Mae'r holl blant yn mynd ati i wneud eu penderfyniadau eu hunain, ac maent yn llwyr ymwybodol o'r amrediad eang o ddewisiadau ac opsiynau sydd ar gael iddynt.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yr holl blant yn deall y drefn ddyddiol yn ddiamau, ac roeddent yn hapus wrth sefyll mewn llinell y tu ôl i 'Helpwr y Cylch' a arweiniodd pob un ohonynt yn ôl at yr ystafell chwarae ar ôl cinio. Roedd pob plentyn yn cymryd ei dro i fod yn 'Helpwr y Cylch', gyda'r plentyn a oedd yn gyfrifol am y rôl ar adeg ein hymweliad yn ei chymryd o ddifrif ac yn mwynhau'r cyfrifoldebau pwysig. Roedd plant yn ffurfio cyfeillgarwch yn hyderus, gan alw ar eu cyfoedion i ymuno â nhw yn eu chwarae a chofleidio ffrind a oedd wedi cael dolur er mwyn ei gysuro. Dangosodd y plant yr holl weithgareddau y gallent gymryd rhan ynddynt mewn modd brwdfrydig yn ogystal â ble roedd popeth yn cael ei gadw, ac roeddent yn hyderus wrth ddweud wrthym yr hyn roeddent yn hoffi ei wneud orau. Er enghraifft, ni allai un plentyn aros i aelod o staff agor drws y tŷ bach twt, ac fe'i tynnodd ni at y drws i gael cip y tu mewn cyn iddo redeg i mewn ac, yn wên o glust i glust, pwyntiodd at yr holl eitemau y gallai chwarae â nhw.

Mae'r holl blant wedi ymgartrefu'n hynod dda ac maent yn mynegi eu mwynhad ynghylch yr holl weithgareddau maent yn gallu cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae’r plant yn rhyngweithio'n dda iawn.

Roedd yr holl blant yn rhyngweithio ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda iawn, er bod un plentyn yn gyndyn o helpu i dacluso ar un adeg, ond gydag ychydig o anogaeth a digon o ganmoliaeth, gwnaeth helpu. Roedd plant yn dechrau dod yn hunanymwybodol ac yn deall goblygiadau peidio â rhyngweithio mewn modd cadarnhaol, ac ar yr un adeg y digwyddodd hyn, roedd y plentyn yn amlwg yn gyfarwydd â'r camau y byddai'n cael eu cymryd, a dywedodd 'sori'. Gwelwyd plant yn cefnogi eu ffrindiau'n weithredol i fod yn garedig wrth eraill, gan annog eu ffrind i rannu eitem chwarae â ffrind arall, a phan na weithiodd hyn i ddechrau, aeth y plentyn i chwilio am eitem tebyg i roi i'w ffrind. Dywedodd un plentyn yn gyffrous wrthyn ni, y staff a'i ffrindiau ei bod yn ben-blwydd arni ac, ar ddiwedd y sesiwn, gwnaeth y plant a'r staff, a oedd yr un mor gyffrous â hithau, ymgynnull o'i chwmpas a chanu pen-blwydd hapus, ac roedd pawb yn gwenu ac yn hapus i ddathlu'r digwyddiad.

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau a'u hemosiynau yn llwyddiannus, ac maent yn dysgu sut i fynegi eu hunain yn dda iawn.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Roedd yr holl blant yn frwdfrydig iawn wrth iddynt gymryd rhan yn eu chwarae a'u dysgu o ddewis. Roeddent wedi bod yn dysgu sut mae lindys yn tyfu'n bili-palod, gydag un plentyn yn pwyntio at yr arddangosfa ar y wal ac yn esbonio'n falch wrthym yn union beth a ddigwyddodd cyn i'r trawsnewidiad ddigwydd. Roedd y plant yn dwlu ar y gweithgaredd chwarae â dŵr, gan ddefnyddio chwistrelli i weld sawl un yr oedd angen ei defnyddio i lenwi cynhwysydd. Gwnaethant ddefnyddio toes chwarae lliwgar a chanolbwyntio'n astud ar dorri siapiau dail a blodau cyn eu gosod yn ofalus ar luniau o flodau a choed, gan roi gwên fawr pan wnaethant lwyddo a derbyn canmoliaeth am eu cyflawniad. Roedd y plant i gyd yn awyddus i fynd allan i chwarae; eu llawenydd o gael cymaint o weithgareddau y tu allan mor amlwg â'r rhai yr oedd ganddynt ddewis ohonynt y tu mewn. Gwnaeth un grŵp o blant neidio a chwerthin mewn cyffro pan ddaeth y staff â'r offer balansio, gyda phob un yn ei dro yn defnyddio ei sgiliau’n llwyddiannus i groesi'r trawstiau pren a oedd yn cael eu cynnal ar deiars. Gwnaeth eraill redeg i'r tŷ bach twt, gan wisgo dillad gwisgo i fyny a chwarae yn y gornel gartref trwy ddefnyddio'r teganau glanhau i 'olchi' ffenestri'r tŷ bach twt. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar unrhyw un o'r gweithgareddau yr oedd y plant yn dymuno cymryd rhan ynddynt, ac roeddent yn ffynnu am fod ganddynt amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu rhagorol.

Mae'r holl blant yn magu ymdeimlad ysbrydoledig a helaeth o gyflawniad yn ogystal â gwerth mawr o'u profiadau chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol yn hynod dda.

Roedd yr holl blant yn datblygu eu sgiliau hunangymorth yn dda, gan wneud eu gorau glas i roi eli haul arnynt eu hunain cyn mynd allan i chwarae, ac roeddent yn llwyr ymwybodol bod angen rhoi eu cwpanau a'u platiau i ffwrdd yn y man cywir ar ôl cinio, a gwnaeth pob un ohonynt hyn. Roedd yr holl blant yn frwdfrydig ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain, gan ddewis chwarae â ffrindiau, yn annibynnol neu ochr yn ochr ag aelod o staff wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd plant yn dysgu am iechyd corfforol da, megis chwarae yn yr awyr agored, yfed dŵr a naill ai bwyta cinio ysgol neu becyn bwyd iachus, y gofynnid i'w rhieni ei ddarparu iddynt. Roedd plant yn greadigol; er enghraifft, trwy ddefnyddio'r holl adnoddau yr oedd eu hangen arnynt i chwarae 'siopa', a gwnaethant chwerthin pan roesant y ffôn symudol chwarae inni i siarad â'u rhieni. Roedd gan yr holl blant amrediad helaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu hiaith ac, er bod y mwyafrif yn dod o gartref di-Gymraeg, roedd pob un ohonynt yn datblygu'n hynod dda wrth ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn gyfrif ac enwi ffrwythau gwahanol a'u lliwiau a oedd ar gardiau darluniadol unigol a ffyn lolipop a, trwy ddefnyddio ei holl wybodaeth a'i phrosesau meddwl, llwyddodd yn y dasg gymhleth hon. Gwnaeth y plentyn oedi am ennyd i feddwl, cyn cywiro ei hun trwy ddweud 'tri plwm piws' yn hytrach na 'tri piws plwm' ac eto wrth fynd i nôl 'pump oren', gan ychwanegu pump oren 'oren'. Roedd hyn yn dystiolaeth gadarn o ran pa mor dda roedd plant yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg, a oedd yn sylfaen gadarn ar gyfer dilyn eu llwybr addysgiadol yn y dyfodol.

Mae gan blant amrediad sylweddol ac ysgogol o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a dilyn eu diddordebau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn drefnus iawn, yn gymwys ac yn frwdfrydig. Maent yn llwyddiannus wrth hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant trwy weithgareddau cynlluniedig amrywiol a diddorol a thrwy eu hymagwedd ofalgar ac ymatebol. Mae'r staff yn gymwys ac yn brofiadol iawn ac yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn deall sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach ac maent yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol trwy ddefnyddio dull cyson a bod yn esiamplau da.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff yn gymwys wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd staff yn dilyn amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, trwy drafodaethau, canfuom eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryder ynghylch diogelu yn unol â pholisi'r gwasanaeth ar gadw plant yn ddiogel. Esboniodd staff ddigwyddiad pan oedd angen sylw brys ar blentyn, lle y gwnaethant ddefnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth a gafwyd o'u cyrsiau cymorth cyntaf pediatrig yn ogystal ag arbenigedd a gwybodaeth yr aelod o staff a oedd yn 'ymatebwr cyntaf'. Ar yr achlysur hwn, aethpwyd i'r afael ag anghenion meddygol y plentyn yn brydlon a heb unrhyw oedi. Roedd staff yn deall pwysigrwydd yfed digon o ddŵr, gan sicrhau bod plant yn yfed dŵr yn ystod y sesiwn a hyrwyddo iechyd da trwy'r gweithgareddau o ddydd i ddydd. Er bod cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cadw, gyda rhieni'n llofnodi i gydnabod eu bod wedi cael eu hysbysu, gwnaethom ofyn i staff gofnodi eu sgyrsiau â rhieni pan fydd plentyn yn cael anaf i'w ben. Yna, bydd hyn yn rhoi cyfrif clir i'r staff o'r ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r anaf a'r camau a gymerwyd o ganlyniad. Roedd staff yn annog y plant i olchi eu dwylo wrth ddefnyddio'r toiledau, gan ddangos dealltwriaeth o reoli croes-heintio posibl, ond gellid elwa ar gwblhau dull archwilio Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddangos sut y caiff croes-heintio ei reoli a'i osgoi cymaint â phosibl yn y gwasanaeth.

Ar y cyfan, mae staff yn dilyn ac yn hybu arferion iach wrth gadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae staff yn rheoli rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac effeithiol.

Gwnaeth staff reoli rhyngweithio yn dda iawn a sicrhau bod digon i'r plant wneud, trwy ddarparu profiadau helaeth iddynt i gynnal eu diddordeb ac i'w cadw'n ddiddig. Er enghraifft, pan orffennodd rhai plant eu bwyd cyn pawb arall, gallent ddewis detholiad o weithgareddau i'w cadw'n brysur wrth aros i'w ffrindiau orffen eu bwyd. Nid oedd staff byth yn colli'r cyfle i ddiolch i'r plant am ddangos caredigrwydd, am wrando ar gyfarwyddyd neu

am rannu, ac roeddent bob amser yn dathlu'r achlysuron hyn trwy ganmol yr unigolion. Roedd staff yn defnyddio cyfarwyddyd yn effeithiol ac, er enghraifft, pan safodd plant ar gyfarpar i weld eu brodyr a'u chwiorydd yn chwarae yng nghae'r ysgol, gofynnwyd iddynt beidio â gwneud hyn, a thynnwyd sylw'r plant yn gyflym trwy sgwrsio am bynciau a oedd yn eu diddori. Rhaid inni nodi bod staff yn rheoli ymddygiad heriol ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn eithriadol o dda.

Mae'r staff yn garedig ac yn addfwyn eu hymagwedd, maent yn esiamplau da iawn o ymddygiad cadarnhaol ac maent yn sicrhau bod digon o weithgareddau ar gael i'r plant i'w cadw'n ddiddig, yn brysur ac i'w hysgogi.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llawn.

Roedd staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn rhoi digon o gymorth iddynt pan oedd angen, gan roi amser i'r plant ddilyn eu diddordebau a'u syniadau eu hunain. Er enghraifft, roedd y staff wedi creu ardal thema a oedd yn gysylltiedig â stori'r 'Lindysyn Llwglyd', lle eisteddodd staff ochr yn ochr â phlant i siarad am yr eitemau gwahanol, enwau'r ffrwythau, eu lliwiau a'u cyfrif. Roeddent yn dangos diddordeb gwirioneddol yn newis gweithgareddau'r plant, gan ofyn iddynt sawl deilen roeddent wedi'i thorri â'r toes chwarae a pha liwiau oedden nhw, gan ymestyn eu chwarae a'u dysgu. Roedd staff yn defnyddio ystafell ddosbarth meithrinfa'r ysgol, gan sicrhau bod plant yn cael profiad o'r holl weithgareddau a amlinellir yn unol â chwarae a dysgu cyfnod sylfaen Llywodraeth Cymru. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ystyried themâu'r ysgol wrth gynllunio gweithgareddau, fel bod gan y plant a oedd yn mynychu meithrinfa'r ysgol ddealltwriaeth well o'r pwnc ac y gallent rannu'r wybodaeth hon â'r plant iau. Er bod angen i staff gadw cofnodion o ddatblygiad y plant mewn perthynas â mynychu dosbarth meithrin yr ysgol, gwnaethant gofnodi cynnydd y plant iau ac, o'r cofnodion a welwyd, roedd staff yn defnyddio eu harsylwadau yn dda i gynllunio ar gyfer chwarae a dysgu'r plant yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd datblygiad y plant wedi'i anelu at hyrwyddo eu sgiliau gwrando yn bennaf, gyda staff yn dweud wrthym fod hyn wedi gweithio'n dda am fod pob un ohonynt yn datblygu'r sgil hanfodol a phwysig hwn. Gwelwyd hyn ar waith, gyda'r plant yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'i gilydd ac â'r staff, ac roedd hyn yn dangos bod staff yn gwybod yn union sut i gael y gorau o'r plant trwy gynllunio gweithgareddau sy'n addas ar gyfer eu hoedrannau a'u camau datblygu.

Mae'r staff yn ymroddedig ac yn frwdfrydig iawn wrth hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

# Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel y tu mewn a thu allan, a gofynnwyd inni lofnodi'r llyfr i ymwelwyr, sy'n golygu bod arweinwyr yn sicrhau na all unigolion heb awdurdod gael mynediad at y safle. Roedd arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ysgrifenedig ac roedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau ar yr un adeg ag ymarferion tân yr ysgol. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol, fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad, gyda chymarebau staffio digonol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfforddus ac ysgogol iawn lle y gall plant ddatblygu a thyfu.

Roedd arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael hwyl ac yn derbyn gofal mewn amgylchedd cynnes a chroesawgar a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a oedd yn olau, yn agored ac yn lân. Roedd yr arweinwyr yn gwneud y gorau o'r ystafell chwarae (a ddefnyddiwyd gan yr ysgol ar gyfer plant ifanc a oedd yn mynychu sesiynau byr bob bore), ac roedd yr holl adnoddau wedi'u gosod gydag ôl meddwl, er mwyn hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu, y tu mewn a thu allan. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ystafell eu hunain i fwyta ynddi, a oedd ar wahân i'r ystafell chwarae, ond wrth gerdded drwy'r ysgol at yr ystafell chwarae, roedd yn amlwg pa mor hapus a chartrefol oedd y plant, a oedd yn cael eu croesawu gan yr aelodau o staff ac yn cael y cyfle i edrych o amgylch eu hamgylchedd dysgu yn y dyfodol. Roedd y tŷ bach twt newydd y tu allan yn darparu ardal i'r plant lle y gallent eistedd a dysgu, beth bynnag fo'r tywydd. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ddigon o gyfleoedd i wella eu hiechyd corfforol, gan gynnig heriau addas iddynt yn y dewis helaeth o gaeau a oedd yn amgylchynu'r ysgol. Roedd yr amgylchedd cyfan yn cefnogi'r plant i fod yn annibynnol, ac roedd yn darparu ar gyfer eu datblygiad a'u dysgu cyffredinol.

Mae'r arweinwyr yn ymroddedig i sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu digon o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu digonedd o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.

Roedd gan yr arweinwyr weithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod adnoddau ac offer yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd y dewis o adnoddau yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau ac i ddatblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, prynwyd cratiau y gallai'r plant eu defnyddio at ddibenion gwahanol, megis adeiladu a balansio, a gosodwyd offer garddio o faint addas i blant wrth ochr gwely blodau'r gwanwyn. Roedd y dodrefn o faint priodol, a oedd yn galluogi'r plant i eistedd yn gyfforddus i fwyta ac i wneud gweithgareddau pen bwrdd. Roedd yr arweinwyr yn darparu eitemau naturiol, rhai wedi'u hailgylchu ac eitemau cartref i'r plant fel adnoddau ychwanegol, a oedd yn hyrwyddo ethos o gynaliadwyedd yn y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ardaloedd cyfforddus i ymlacio neu ddarllen, yn ogystal ag amrediad eang o adnoddau dysgu glân ac o ansawdd da i hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amrediad helaeth o adnoddau ac offer yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth y plant.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, gyda phwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n hyrwyddo datblygiad y plant yn weithredol. Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm staff cryf a chanddynt rolau a chyfrifoldebau clir, sy'n darparu gofal o ansawdd uchel i'r plant. Mae partneriaethau wedi'u sefydlu â rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â pherthnasau cryf iawn â'r ysgol.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda.

Yn gyffredinol, roedd arweinwyr yn gweithio â gofal a sylw er mwyn bodloni'r safonau a'r rheoliadau gofynnol, ond roedd angen iddynt anfon copi atom o'u datganiad o ddiben a oedd yn nodi'r oriau agor newydd. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth wrth ddarparu'r gofal yr oedd ei angen ar y plant. Roedd yr arweinwyr wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad bob dydd, a oedd yn golygu y gellid mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a oedd yn codi yn brydlon a heb unrhyw oedi. Roedd yr arweinwyr yn ymroddedig i ddarparu'r gofal gorau posibl i blant, gan sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd cynhwysol sydd yr un mor bwysig â gofal yr holl blant sy'n mynychu'r ysgol.

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol, sy'n sicrhau bod plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen.

Roedd yr arweinwyr yn cwblhau asesiadau parhaus a rheolaidd o'r gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, ac yn gwneud gwelliannau yn ôl yr angen. Gwelliant sylweddol i'w wneud ar gyfer y dyfodol oedd cofrestru ar gyfer cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Llywodraeth Cymru ar ôl gwyliau hanner tymor mis Mai, gan ddangos unwaith eto bod yr arweinwyr yn ymroddedig i wella gofal a datblygiad y plant. Roedd yr arweinwyr yn ymwybodol bod angen cwblhau adroddiad ansawdd gofal blynyddol o fewn blwyddyn i gofrestru'r gwasanaeth gyda ni, sy'n cynnwys safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu prosesau er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff staff eu cefnogi'n dda yn eu rolau, a'u bod yn rheoli adnoddau'n dda.

Roedd arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gymwys ac yn brofiadol, a gwnaethant ddweud wrthym fod staff yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, nid yn unig o fewn y gwasanaeth ond o fewn amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, roedd un aelod o staff (y person â gofal) hefyd yn gweithio fel athrawes gynorthwyol yn yr ysgol, lle roedd ei dull ymroddgar a naturiol o ofalu am blant yn amlwg. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y ddau aelod o staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant a chyrsiau i ddiweddaru eu gwybodaeth am ofalu am blant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn addas i ofalu am blant, gyda'r gwiriadau perthnasol ar waith, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu wedi'i gwblhau. Roedd y gwasanaeth yn drefnus iawn, gyda'r staff a'r arweinwyr yn awyddus i wella ansawdd y gofal a ddarperir i'r plant, ac yn cynnig gwasanaeth gwell yn barhaus o ganlyniad i hyn. Roedd yr arweinwyr yn cyfarfod â'r staff yn ddyddiol er mwyn trafod unrhyw broblemau mewn perthynas â'r gwasanaeth ac er mwyn rhannu syniadau ac arferion da. Roedd yr arweinwyr yn llwyr ymwybodol bod angen cwblhau arfarniadau staff bob blwyddyn, o fewn blwyddyn i gofrestru'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth a'r staff yn dda ac, o ganlyniad, mae'r plant yn elwa ar wasanaeth effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â rhieni a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â pherthynas ragorol ag aelodau o staff yr ysgol.

Roedd yr arweinwyr yn hysbysu'r rhieni ynghylch amser eu plentyn yn y gwasanaeth bob dydd, ac fe'u clywsom yn gwneud hyn pan oedd rhieni'n dod i gasglu eu plentyn ar ddiwedd y sesiwn. Roedd rhieni'n rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u plentyn cyn i'w plentyn ddechrau, fel bod arweinwyr yn gallu rhannu trefn ddyddiol pob plentyn, ei hoffterau a'i anghenion â'r tîm staff. Ffurfiwyd perthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth, megis athro ymgynghorol y cyfnod sylfaen, ac roedd hyn yn galluogi'r staff i wella eu harferion mewn perthynas â chwarae a dysgu'r plant. Roedd partneriaethau rhagorol rhwng y gwasanaeth a'r ysgol; daeth ystafell ddosbarth yn yr ysgol yn ystafell chwarae ar gyfer y plant yn ystod y prynhawn, ac roedd staff yn derbyn cymorth da iawn gan y pennaeth (sef un o arweinwyr y gwasanaeth hefyd) ac athrawon yr ysgol a oedd, yn ôl y staff, bob amser wrth law i helpu. Roedd y bartneriaeth ddiamheuol a chryf hon yn dangos bod yr ysgol a'r gwasanaeth ill dau yn ymroddedig i gydweithio fel tîm unedig o weithwyr proffesiynol i sicrhau bod y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn derbyn y gofal gorau posibl o'r dechrau'n deg.

Mae partneriaethau â'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol yn dda. Mae'r berthynas dda a chadarn hon rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth yn dangos bod y fath bartneriaeth ragorol a llwyddiannus yn cyfrannu'n fawr at gynyddu llesiant y plant.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru'r gwasanaeth ym mis Hydref 2017.

## 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r dirprwy reolwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliad canlynol. Ni wnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn am na welsom dystiolaeth bod hyn yn cael effaith ar lesiant y plant. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn.

**Rheoliad 15** o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – rhaid i'r personau cofrestredig gyflwyno copi cyfredol o ddatganiad o ddiben y gwasanaeth i ni, sy'n nodi'r oriau agor newydd.

## 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

**Gallai arweinwyr ystyried y canlynol:**

- Cofnodi datblygiad pob plentyn;
- cofnodi sgyrsiau â rhieni pan fydd plentyn yn cael anaf i'w ben;
- cwblhau dull archwilio Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaethom gynnal arolygiad ar 24 Mai 2018, gan gyrraedd am 12pm a gadael am 4pm.

- gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn;
- gwnaethom siarad â'r person â gofal, y person cofrestredig a'r staff;
- gwnaethom siarad â'r plant a oedd yn bresennol;
- gwnaethom edrych ar y mannau a ddefnyddir gan y plant;
- gwnaethom edrych ar amrediad eang o gofnodion, gan gynnwys presenoldeb, polisïau a gweithdrefnau, y datganiad o ddiben, ffeiliau plant a staff a chofnodion datblygu;
- gwnaethom roi adborth i'r personau cofrestredig ar ein canfyddiadau.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd sesiynol** |
| **Personau cofrestredig** | **Rhian Corps**<br>**Annwen Williams** |
| **Person â gofal** | **Rhian Corps** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **18** |
| **Ystod oedran y plant** | **2–4 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol 11.30am–3.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Cofrestrwyd ym mis Hydref 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **24 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n anelu at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg ac sy'n dangos ei fod yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd y Gymraeg a'i diwylliant** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |